# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG, 26.09. 2007

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd Ieuan Roberts (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cyngor Gwynedd), ynghyd â'r Mri Gwyn Davies (Cyngor Tref Porthmadog), Robert Owen (Buddiannau Masnachol), Chris Haywood (Buddiannau Hamdden), Peter Lunt Williams (Sefydliad y Bâd Achub), Cynghorydd B. Bracewell (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi – Sylwedydd)

**Hefyd yn Bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), John Hughes (Harbwrfeistr Tros Dro) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr June Jones, M. Sol Owen, Roy Owen, Alan Williams (Cyngor Gwynedd), David Eastwood (Buddiannau'r Harbwr), Dr John J. Morris (Buddiannau Hamdden) a David McLean (Buddiannau perchenogion tir)

Croeso

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i John Hughes (Harbwrfeistr Tros Dro) a diolchodd i Dafydd Phillips, a secondiwyd am y tro i swydd Harbwrfeistr Pwllheli, am ei waith tros y blynyddoedd yn gysylltiedig â harbwr Porthmadog.

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd Ieuan Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2007/08.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2007/08.**

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2007 fel rhai cywir.
Materion yn Codi
Cofnod 1 – Materion Brys
a) Mynediad posibl i'r harbwr gan long masnachol

Gofynnodd aelod beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf parthed yr ymholiadau a dderbyniwyd gan Gwmni Trafnidiaeth Wynns i ddod a newidydd ar long masnachol i'r harbwr yn Ionawr 2008 a'i gludo oddiyno i Trawsfynydd.

Hysbysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau pellach ond addawodd geisio rhagor o wybodaeth.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

b) Lleoli pontwnau ger Gwynedd Marine

Gofynnodd aelod beth oedd y sefyllfa ynglyn â'r cais cychwynnol a dderbyniwyd gan David McLean i wella cyfleusterau ar gyfer cychwyr ger Gwynedd Marine drwy osod pontwnau cyfagos â wal yr harbwr.

Hysbysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd y cynllun wedi ei ddatblygu ymhellach hyd yn hyn ond efallai y bydd manylion i law erbyn y cyfarfod nesaf. 'Roedd yn obeithiol y byddai'r ymgeisydd yn cyflwyno gwybodaeth pellach am y cynllun yn ystod y misoedd nesaf.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

Cofnod 2 – Cofnodion
b) Pibell arllwys dŵr arwyneb ym Morth y Gest

Tynnwyd sylw unwaith yn rhagor gan aelod at y ffaith nad oedd gwaith wedi ei wneud i'r bibell.

Hysbysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y byddai'n trefnu i'r harbwrfeistr ymweld â'r safle ar lanw isel a pharheir i bwyso ar Dŵr Cymru i geisio eu sylwadau ar y bibell.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

## 4. YMDDISWYDDIAD AELOD

Adroddwyd bod Mr Robin Kyffin wedi ymddiswyddo fel aelod o'r pwyllgor a bod Mr David McLean yn awyddus i gymryd ei le ar y pwyllgor.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth ac anfon llythyr at Mr Kyffin yn diolch iddo am ei wasanaeth ar y pwyllgor tros y blynyddoedd.**

## 5. ADRAN MORWROL

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

### 1. Morwriaeth

Adroddodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig:-
a) Yr archwiliwyd yr holl gymhorthion mordwyo gan swyddog Tŷ'r Drindod ar 10 Medi 2007 ac mae'r cyfan ohonynt yn harbwr Porthmadog mewn cyflwr derbyniol. Ar wahan i gyfnod byr yng Ngorffennaf, bu'r holl gymhorthion yn gyson ar eu safle yn ystod tymor yr haf.
b) Bod dau fwi tros dro a leolwyd yn ardal Bae Samson erbyn hyn yn ddiangen ac fe'u tynnwyd o'r safle. 'Roedd y gost o dderbyn cymorth gan gontractwr gyda'r gwaith o gynnal y cymhorthion mordwyo yn £440. Nid oedd yn bosibl cwblhau'r gwaith yn fewnol gan bod y newidiadau yn y sianel wedi digwydd yng nghanol y tymor.
c) Y gosodwyd wyth llusern ar y cymhorthion mordwyo pwysicaf a chwblhawyd y gwaith cyn 30 Ebrill 2007, sef yn unol â tharged yr Uned Forwrol. Gosodwyd y llusernau gan staff yr harbwr a hyn fydd y drefn ar gyfer y dyfodol. Mae'r Uned Forwrol

yn ystyried goleuo cymhorthion mordwyo yn ardal Borth y Gest gan y rhagwelir y byddai hyn o gymorth i forwyr. Paratoir adroddiad gan yr Harbwrfeistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau ar hyn a chyflwynir argymhellion cyn diwedd Hydref 2007.
ch) Y bwriedir paratoi rhaglen cynnal a chadw'r cymhorthion mordwyo yn ystod yr hydref. Oherwydd pwysigrwydd y llusernau, mae'r Uned Forwrol yn ystyried a fyddai'n bosibl parhau gyda'r llusernau drwy'r gaeaf. Os na fyddai hyn yn bosibl, yna fe ddadgysylltir y llusernau ym mis Hydref gan eu hail-leoli yn Ebrill 2008
d) Bod y bwi tramwyo ar ei safle ers peth amser bellach ac mae ei gyflwr wedi dirywio'n ddiweddar. Bwriedir ei gynnal a'i gadw ar ei safle cyn diwedd mis Medi er sicrhau ei fod mewn cyflwr derbyniol tros fisoedd y gaeaf. Yn Ebrill 2008, fe fydd y bwi tramwyo presennol yn cael ei ddychwelyd i'r lan ac yn cael ei gynnal a'i gadw yn ystod y gwanwyn. Bydd y bwi tramwyo sbâr a gafodd ei gynnal yn ystod yr haf eleni yn cael ei leoli yn y bae ac fe fydd yr holl angorfeydd a chadwyni'n cael eu harchwilio gan gontractwr.

Diolchodd cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub Criccieth i'r swyddogion am y gwaith effeithiol o oleuo'r bwiau. Hysbysodd hefyd bod gorsaf bâd achub Criccieth yn derbyn bâd newydd ar 5 Tachwedd 2007.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a sicrhau bod y bwiau ger ceg yr afon i'w marcio.**

**2. Ymestyn y llithrfa**

Adroddodd y cwblhawyd y gwaith o ymestyn llithrfa'r harbwr yn llwyddiannus ac mae'r estyniad yn caniatau i forwyr lansio cychod ar adegau lle nad oedd yn bosibl yn y gorffennol. Gwahoddwyd sawl cwmni i dendro am y gwaith sifil a'r pris mwyaf cystadleuol a dderbyniwyd gan gwmni "Rock Engineering" oedd £43,800. Cafwyd cefnogaeth ariannol at y cynllun drwy grant gan y Cynulliad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**3. Is Ddeddfau Harbwr**

Adroddodd y cyflwynwyd yr is-ddeddfau drafft eisoes i'r Uned Gyfreithiol ac maent wedi eu paratoi er eu cyflwyno i'r Cynulliad i'w mabwysiadu'n ffurfiol. Fodd bynnag, mae llithriad sylweddol yn y rhaglen, ac yn anffodus ni mabwysiedir yr is-ddeddfau yn ystod 2007. Datganodd anfodlonrwydd bod y gwaith hwn yn cymryd cyhyd i'w gwblhau gan fawr obeithio y cadarnheir yr is-ddeddfau gan y Cynulliad mor fuan â phosibl ac y byddant yn dod i rym yn 2008/09.

**PENDERFYNWYD datgan siom wrth y Rheolwr Cyfreithiol am yr oedi cyn mabwysiadu'r is-ddeddfau a phwyso bod y gwaith yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl.**

**4. Datblygiadau'r Clwb Hwylio**

Adroddodd bod yr Uned Forwrol wedi derbyn cais gan Glwb Hwylio Madog am ganiatâd i ymestyn y cyfleusterau pontŵn presennol. Gan bod y llithrfa presennol wedi ei ymestyn, a hyn ar gost sylweddol, ni rhagwelir y byddai'n bosibl ar hyn o bryd i

ymestyn y pontŵn gan y byddai unrhyw estyniad yn amharu ar ddefnydd y llithrfa, yn enwedig ar y trai.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 5. Ystadegau'r Harbwr

Tynnodd sylw'r cyfarfod at ystadegau atodwyd i'r adroddiad yn nodi bod 1049 o fadau dwr personol wedi cofrestru yn 2007 o'i gymharu â 1208 yn 2006. Yn 2005, cyflwynwyd cynllun a oedd yn gorfodi pob cwch pŵer neu fâd dŵr personol i gofrestru gyda'r Cyngor cyn y gellir caniatau iddynt lansio ar lithrfa unrhyw harbwr neu ar unrhyw draeth yng Ngwynedd ac eithrio Nefyn a Morfa Nefyn. Cofrestrwyd 39 o gychod pŵer yn harbwr Porthmadog a 46 ar Draeth y Greigddu eleni. Mae ffi cofrestru cychod pŵer a badau dŵr personol yn £14 drwy'r post neu £20 ar y traeth neu yn swyddfa'r harbwr. Mae ffi lansio'n £12 y dydd neu £124 am y tymor.

Nododd bod 208 o gychod wedi angori yn yr harbwr eleni. Bydd yr Harbwrfeistr yn cysylltu gyda phob perchennog cwch a adawodd yr harbwr er ceisio gwybodaeth am y rheswm pam na fu i'r gwch gael ei hangori ym Mhorthmadog yn 2007/08.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. Canlyniad Barn Cwsmer

Adroddodd ar ganlyniad barn cwsmer harbwr Porthmadog. Fe fydd yr Uned Forwrol yn dosbarthu'r adroddiad a gyflwynodd ganlyniad yr holiadur i holl gwsmeriaid yr harbwr yn Ionawr 2008. Cyplyswyd yr adroddiad i'r llythyr a gylchredir i'r cwsmeriaid yn eu gwahodd i gyflwyno cais am angorfa yn yr harbwr yn 2008/09. Ni ragwelir y cylchredir holiadur newydd ynghlwm â'r ohebiaeth yn 2008/09.

Diolchwyd i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig a'i staff am y gwaith a wnaed yn adolygu ystadegau'r holiaduron.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

## 7. Cyllidebau

Rhoddodd fanylion i'r pwyllgor am gyllideb harbwr Porthmadog am y flwyddyn ariannol 2006/07 a hefyd cyllideb refeniw a thargedau incwm yr harbwr am y flwyddyn ariannol 2007/08. Pwysleisiodd bod angen bod yn wyliadwrus iawn er sicrhau na fyddai'r gwasanaeth yn ymrwymo arian tu hwnt i'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Mae'r Harbwrfeistr yn darparu rhaglen waith ar gyfer yr hydref er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant.

Cyrhaeddwyd targed incwm am y flwyddyn ariannol gyfredol, sef £75,020. Mae incwm yr harbwr hyd yma eleni yn £77,476. Ni rhagwelir y bydd ychwanegiad sylweddol yn yr incwm rhwng Hydref a diwedd Mawrth 2008.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

**8. Strwythur Staffio Morwrol**

Rhoddodd fanylion am strwythur staffio'r Uned Forwrol a Pharciau Gwledig a oedd hefyd yn cynnwys siart llif strwythur staffio Hafan Pwllheli. Ar 1 Mai 2007, 'roedd newidiadau staff (tros dro) yn Harbwr Porthmadog, Pwllheli ac Aberdyfi. Yn dilyn dyrchafiad cyn Harbwrfeistr Pwllheli, secondiwyd Harbwrfeistr Porthmadog i swydd Harbwrfeistr Pwllheli; secondiwyd Swyddog Traethau Pwllheli i swydd Harbwrfeistr Porthmadog a secondiwyd Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi i swydd Cymhorthydd Traeth Pwllheli. Mae cyfnod y secondiad yn dirwyn i ben ar 31 Rhagfyr 2007.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**9. Raciau Cychod Gweini**

Adroddodd y penderfynwyd, er sicrhau gwelliant i'r cyfleusterau ar gyfer defnyddwyr yr harbwr, i leoli raciau storio cychod gweini yng nghompownd yr harbwr a lleihau uchder y rac er cydymffurfio ag argymhellion yr Adran Cynllunio. Adeiladwyd y raciau ac fe'u defnyddir gan rai cwsmeriaid. Gosodwyd cadwyn addas wrth ochr y llithrfa a fyddai'n rhoddi cyfle i forwyr ddiogelu cychod gweini wrth ymweld â'r tir sych.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**10. Cynnal a Chadw Angorfeydd**

Adroddodd y bydd yr holl angorfeydd yn yr harbwr yn cael eu harchwilio a'u cynnal a chadw gan gontractwr penodedig yn ystod Ionawr 2008. Buddsoddodd y Cyngor yn sylweddol mewn cynnal a chadw ac adnewyddu cadwyni yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac ni ragwelir y bydd angen buddsoddiad sylweddol yn 2007/08.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

**4. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 12 Mawrth 2008.

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm a daeth i ben am 7.00pm